

BWRDEISTREF SIROL BLAENAU GWENT

ADRODDIAD I: CADEIRYDD AC AELODAU'R CYNGOR

**PWNC: PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG A DYSGU -
15 HYDREF 2018**

ADRODDIAD GAN: SWYDDOG GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD

PRESENNOL: CYNGHORYDD HAYDEN TROLLOPE (CADEIRYDD)

Cynghorwyr: D. Bevan
M. Cook
G. A. Davies
J. Hill
L. Parsons
T. Smith

Aelod Cyfetholedig

Mr. T. Baxter
Mr. A. Williams

A: Cyfarwyddwr Corfforaethol - Addysg a Dysgu
Pennaeth Trawsnewid Addysg - Addysg
Swyddog Arweiniol Cynhwysiant - Addysg
Rheolwr Gwasanaeth Addysg - Addysg
Sarah Davies – EAS
Tracey Pead - Trawsnewid ADY Llywodraeth Cymru

EITEM	PWNC	GWAITH
1	<p><u>CYFIEITHU AR Y PRYD</u></p> <p>Nodwyd na dderbyniwyd unrhyw geisiadau am y gwasanaeth cyfieithu ar y pryd.</p>	
2	<p><u>YMDDIHEURIADAU</u></p> <p>Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr:</p> <p>P. Baldwin, J. Collins, P. Edwards, L. Elias, J. Holt a J. C. Morgan.</p>	
3	<p><u>DATGANIADAU BUDDIANT A GODDEFEBAU</u></p> <p>Ni adroddwyd unrhyw ddatganiadau buddiant na goddefebau</p>	
4	<p><u>PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG A DYSGU</u></p> <p>Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod o'r Pwyllgor Craffu addysg a Dysgu a gynhaliwyd ar 3 Medi 2018, yn cynnwys:-</p> <p>CYTUNODD y Pwyllgor i gadarnhau'r cofnodion..</p>	
5	<p><u>DALEN WEITHREDU</u></p> <p>Cyflwynwyd y Ddalen Weithredu yn deillio o'r Pwyllgor Craffu Addysg a Dysgu a gynhaliwyd ar 3 Medi 2018.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Blaenraglen Waith - Amlinellodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg gynnwys y tabl a dywedodd na themlai fod y rhifau yn anghymesur. 	

	<ul style="list-style-type: none"> • Nifer a Chostau Cadeiryddion a Chynghorwyr sy'n derbyn Tâl ar Gyrrff Llywodraethu Ysgolion – Cadarnhaodd Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg nad oedd unrhyw Gadeiryddion yn derbyn tâl ar hyn o bryd. Esboniodd fod Is-gadeirydd yng Nghymuned Ddysgu Abertyleri oedd yn gweithredu fel Cynghorydd a dan gontract i gael ei dalu. <p>Mewn ymateb i gwestiynau am dalu i Gadeiryddion mewn blynyddoedd blaenorol esboniodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol y bu Cadeirydd oedd yn dderbyniodd dâl i sefydlu corff llywodraethu drwy gydol cyfnod adeiladu'r ysgol newydd..</p> <p>Hysbysodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol yr Aelodau yr anfonwyd llythyr llongyfarch y 4 ysgol gyfun.</p> <p>CYTUNODD y Pwyllgor y dylid nodi'r Ddalen Weithredu yn deillio o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 3 Medi 2018.</p>	
6	<p><u>DIWYGIADAU ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL - YDYN NI'N BAROD?</u></p> <p>Rhodddwyd ystyriaeth i adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a gyflwynwyd i roi diweddariad i Aelodau ar Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlysoedd (Cymru), y goblygiadau a'r cynnydd a wnaed yn nhermau parodrwydd.</p> <p>Siaradodd y Swyddog Arweiniol Cynhwysiant am yr adroddiad a thynnu sylw at y pwyntiau perthnasol ynddo:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Diben yr adroddiad • Cwmpas a chefnidir • Ffyrdd newydd o weithio Anghenion Dysgu Ychwanegol • Amserlen gweithredu Anghenion Dysgu Ychwanegol • Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol - Ydyn ni'n barod? • Opsiynau ar gyfer argymhelliad 	

Teimlai Aelod yng nghyswllt ymarfer yn canoli ar y person ei bod yn hanfodol eu bod yn cael eu cadeirio'n effeithlon a bod yr argymhellion yn cael eu dilyn lan a'u cwblhau. Teimlai'r Swyddog Arweiniol Cynhwysiant fod hwn yn bwynt dilys ac mai anghenion y disgybl oedd y prif ffocws.

Cyfeiriodd yr Aelod hefyd at 2.21 lle credai mai oedran pobl ifanc gyda ADY oedd 0 i 19. Esboniodd Swyddog Llywodraeth Cymru ei fod yn 0 i 25 dan y system newydd gyda mynediad i addysg a hyfforddiant addas ac y bydd yn canoli ar y person. Dywedodd fod cyfathrebu gyda rhieni a gofalwyr yn hanfodol ac fel canlyniad trefnwyd 5 gweithdy cyn cyfnod y Nadolig a 5 yn dilyn cyfnod y Nadolig ar draws y rhanbarth er mwyn hyfforddi rhieni a gofalwyr mewn ymarfer yn canoli ar y person. Teimlai'r Swyddog ei bod yn bwysig rhoi cyfleoedd ar gyfer pobl ifanc ôl 16.

Mynegodd Aelod bryder am ysgolion yn cael y gallu i weithredu'r Ddeddf erbyn 2020, a gan fod cyllidebau yn newid gofynnodd lle teimlai'r Swyddog y byddai'r Awdurdod mewn 3 blynedd. Dywedodd y Swyddog Arweiniol Cynhwysiant fod llawer yn dibynnu ar weithredu arfer da a bod manylion oedd angen eu datrys yn rhanbarthol. Parhaodd Swyddog Llywodraeth Leol drwy ddweud fod angen sicrwydd y gallai athrawon ym mhob ysgol ddiwallu'r anghenion. Esboniodd y cymerwyd y camau cyntaf gydag arolwg parodrwydd yn cael ei ymestyn. Rhoddodd Swyddog Llywodraeth Cymru sicrwydd na fyddai'r gost yma'n dod o gyllideb y Cyngor. Nodwyd fod Llywodraeth Cymru wedi darparu £3.9m ychwanegol ar draws Cymru ar gyfer dysgu proffesiynol.

Cyfeiriodd y Swyddog Arweiniol Cynhwysiant at 5.1 yr adroddiad lle mai disgwyliadau Llywodraeth Cymru oedd y byddai'r diwygio yn sicrhau arbedion, fodd bynnag cafodd hyn ei ddiwygio wedyn ac mae Llywodraeth Cymru yn awr yn ystyried y bydd yr effaith yn niwtral o ran cost. Mynegodd y Swyddog bryder am Gynhwysiant ADEW yng nghyswllt hyn ac oes daw'n glir nad yw'r system newydd yn niwtral o ran cost, bydd her gadarn i Lywodraeth Cymru.

Gofynnodd Aelod os y byddai cyllid ychwanegol ar gael i ddysgwyr hyd at 25 oed. Dywedodd Swyddog Llywodraeth

Cymru nad oedd unrhyw gyllid ychwanegol ar hyn o bryd. Cadarnhaodd y Swyddog Arweiniol Cynhwysiant fod gwaith eisoes wedi dechrau gyda'r Bwrdd Iechyd am anghenion iechyd pob oedran 0-25 a bod y model hwn yn cael ei ddatblygu ar draws Gwent ar hyn o bryd.

Gadawodd Mr. T. Baxter y cyfarfod ar y pwynt hwn.

Gofynnodd Aelod os gellid defnyddio'r Ddeddf ADY fel arf i sicrhau fod plant sy'n derbyn addysg ddewisol yn y cartref yn cael addysg addas gan y teimlai y gallai fod pryderon am blant gydag anghenion dysgu ychwanegol. Esboniodd y Swyddog Arweiniol Cynhwysiant yng nghyswllt disgyblion gyda datganiad na allai'r Awdurdod eu hatal rhag cael eu haddysgu yn y cartref er y byddai'r Datganiad yn parhau yn ei le ac y byddai'n cael ei fonitro'n flynyddol. Fodd bynnag, ar gyfer disgyblion sy'n mynychu ysgol arbennig y mae eu rheini'n dewis addysg yn y cartref y gall yr Awdurdod wrthod y cais.

Gofynnwyd cwestiwn yng nghyswllt y canlyniad a gafodd y Credyd Cynhwysol ar brydau ysgol am ddim gan ei bod yn amlwg y cafodd hyn effaith ddifrifol ar addysg disgybl gyda phosibilrwydd dod yn NEET. Ymatebodd Swyddog Llywodraeth Cymru mai byrdwn y rhaglen oedd atal pobl ifanc rhag dod yn NEET; esboniodd fod y Ddeddf o fwy yn ddull ymbarél i alluogi gweithio cefnogaeth hirach gyda Phenathiaid Coleg i benderfynu ar gyrsiau addas i liniaru NEET.

CYTUNODD y Pwyllgor i argymhell, yn amodol ar yr uchod, i gymeradwyo Opsiwn 1 sef:

- Derbyn yr adroddiad a chytuno y bydd Blaenau Gwent yn barod am ADY ym mis Medi 2020 pan ddaw'r systemau ADY newydd yn weithredol a bod paratodau priodol yn eu lle.

Gadawodd y Swyddog Arweiniol Cynhwysiant a'r Swyddog Llywodraeth Leol y cyfarfod ar y pwynt hwn.

7	ADRODDIAD	YSBRYDOLI	I	GYFLAWNI	A
----------	------------------	------------------	----------	-----------------	----------

PHERFFORMIAD GWAITH 2017 - 2018

Rhoddwyd ystyriaeth i adroddiad y Pennaeth Trawsnewid Addysg a gyflwynwyd i roi cyfle i Aelodau graffu ar brosiectau lleol Ysbrydoli i Gyflawni ac Ysbrydoli i Weithio a gyllidwyd gan Gronfa Gymdeithasol Ewrop.

Siaradodd y Rheolwr Gwasanaeth Ieuencid am yr adroddiad a thynnu sylw at y pwyntiau allweddol ynddo:

- Diben yr Adroddiad
- Cwmpas a chefnidir
- Tystiolaeth
- Goblygiadau
- Risg
- Tystiolaeth gefnogi
- Canlyniad a ddisgwylir

Esboniodd y Rheolwr Gwasanaeth Ieuencid oherwydd diweithdra uchel ym Mlaenau Gwent fod gwaith yn mynd rhagddo gyda Llywodraeth Cymru, Gyrfa Cymru a'r Adran Gwaith a Phensiynau er mwyn rhannu lefel y data.

Cyfeiriodd Aelod at 5.2 yr adroddiad a holodd am y meini prawf sydd eu hangen er mwyn sicrhau cyllid y dyfodol, dywedodd y Swyddog ei bod yn flaenoriaeth genedlaethol. Esboniodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol fod y rhifau a nodir yn yr adroddiad yn cyfeirio at ddisgyblion ar ddiwedd blwyddyn 11; fodd bynnag mae angen medru olrhain disgyblion yn mlynnyddoedd 11, 12 a 13.

Cyfeiriodd Aelod at Hyrwyddwr Awtistiaeth Cymru a dderbyniodd £10m gan Lywodraeth Cymru gyda'r nod i sicrhau fod pobl ifanc awtistig yn cael cyflogaeth. Gofynnodd os gellid cysylltu gyda'r Hyrwyddwr i gefnogi dysgwyr ym Mlaenau Gwent.

Mynegodd Aelod bryder yng nghyswllt tudalen 36 yr adroddiad parthed atgyfeiriadau cymwys codau post. Esboniodd y Swyddog fod Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno cynnig i WEFO ar gyfer Cymunedau am Waith, a rannwyd ar draws dau ystod oedran. Esboniodd fod Blaenau Gwent a Merthyr wedi dod yn bennaf dan hen

	<p>raglen Cymunedau yn Gyntaf.</p> <p>Gofynnwyd os y byddai strategaeth gadael pe byddai risg o gyllid yn dod i ben. Ymatebodd y Swyddog y byddai'r Cyngor yn gweithio tuag at strategaeth gadael, fodd bynnag pwysleisiodd y byddai'r Cyngor yn gweithio mewn partneriaeth a'u bod yn hollol ymwybodol o'r risgiau, fyddai'n parhau i gael ei monitro a'u hadrodd i'r Pwyllgor Craffu yn flynyddol. Dywedodd y Pennaeth Trawsnewid Addysg fod gan Lywodraeth Cymru rôl allweddol wrth gefnogi'r strategaeth adael.</p> <p>Gofynnodd Aelod pam fod prosiectau mewn ysgolion yn gwahaniaethu a dywedodd y Swyddog ei fod yn seiliedig a'i deilwra ar anghenion yr ysgol unigol.</p> <p>CYTUNODD y Pwyllgor i argymhell bod yr adroddiad yn cael ei dderbyn a chymeradwyo Opsiwn 2, sef derbyn yr adroddiad.</p> <p>Gadawodd y Cynghorydd G. A. Davies y cyfarfod ar y pwynt hwn.</p>	
8	<p><u>DEILLIANNAU TERFYNOL DIWEDD Y CYFNOD SYLFAEN, CYFNOD ALLWEDDOL 2 A CHYFNOD ALLWEDDOL 3 A DEILLIANNAU DARPARIAETHOL CYFNOD ALLWEDDOL 4 2018</u></p> <p>Rhodddwyd ystyriaeth i adroddiad y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a gyflwynwyd i roi gwybodaeth monitro perfformiad i Aelodau ar gyfer asesiad statudol gan athrawon ar ddiwedd Cyfnodau Allweddol ar gyfer 2017/18 ar gyfer perfformiad ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaenol, Cyfnod Allweddol 2, Cyfnod Allweddol 3 a Chyfnod Allweddol 4 (darpariaethol) ar lefel yr awdurdod lleol.</p> <p>Siaradodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol Addysg a Swyddog EAS am yr adroddiad a thynnu sylw at y pwyntiau allweddol ynddo:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Diben yr Adroddiad • Diweddarau ar newidiadau (Cyfnod Allweddol 2 a 3) 	

- Goblygiadau ar gyfer awdurdodau lleol
- Cyfnod Allweddol
- Cyfnod Allweddol 2/3/4

Gofynnodd Aelod os gallai'r Swyddogion esbonio rôl y Pwyllgor Craffu yng nghyswllt y fframwaith newydd ac adrodd data perfformiad ysgolion. Hysbysodd y Swyddog EAS yr Aelodau fod Llywodraeth Cymru yn edrych ar ddatblygu cerdyn sgorio newydd. Esboniodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol y byddai Cynghorwyr Her yn defnyddio cynnydd ysgolion a gwerthoedd i osod targedau.

Cododd Aelod bryder a ofynnodd os na chaiff Aelodau'r Pwyllgor Craffu wybodaeth tan Gyfnod Allweddol 4, sut y gallai'r pwyllgor gefnogi'r disgyblion hynny a all fod mewn risg o beidio cyflawni eu deilliannau disgwylidig. Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol y byddai'r holl wybodaeth a data yn cael eu rhannu a'u monitro gan EAS, Llywodraethwyr a'r Cyfarwyddiaeth Addysg; fodd bynnag, ni fyddai'r wybodaeth yma yn y parth cyhoeddus.

Gofynnwyd os gellid cynhyrchu gwybodaeth parthed y rhaglen Dechrau'n Deg yng nghyswllt y derbyniad cyntaf o blant a'r cynnydd a wnaethant hyd yma, ac i gynhyrchu'r wybodaeth i Lywodraeth Cymru i obeithio dangos y gwahaniaeth a wnaeth Dechrau'n Deg. Dywedodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol y byddai'n casglu'r wybodaeth.

Cyfeiriwyd at y Credyd Cynhwysol lle bu gostyngiad sylweddol yn nifer y plant sydd â hawl i brydau ysgol am ddim. Esboniodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol yn ystadegol fod hyn yn debyg i brydau ysgol am ddim oherwydd bod gan rieni a gofalwyr gyflogaeth ran-amser, fodd bynnag mae cymorth ar gael ar gyfer y disgyblion hynny sydd angen prydau ysgol am ddim.

CYTUNODD y Pwyllgor i argymhell derbyn yr adroddiad a chymeradwyo Opsiwn 1 sef:

- Argymhell bod y Pwyllgor Craffu Addysg a Dysgu yn monitro'r perfformiad statudol, blynyddol hwn ar berfformiad diwedd cam/cyfnod allweddol a rhoi adborth ar i ba raddau y mae'r Cyngor yn dangos

Cyfarwyddwr
Corfforaethol

	<p>gwelliant ac effeithlonrwydd y prosesau i sicrhau gwelliant parhaus; a;</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cynnwys bod y Pwyllgor Craffu yn falch iawn i nodi'r gwelliannau a wnaed ym mhob ysgol. 	
<p>9</p>	<p><u>BLAENRAGLEN WAITH - 26 TACHWEDD 2018</u></p> <p>Rhodddwyd ystyriaeth i adroddiad Cadeirydd y Pwyllgor Craffu Addysg a Dysgu a gyflwynwyd i roi'r flaenraglen waith i Aelodau ar gyfer y cyfarfod a gynhelir ar 26 Tachwedd 2018 i'w drafod a diweddarau'r Pwyllgor am unrhyw newidiadau.</p> <p>Gofynnodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol i'r Pwyllgor Craffu os y byddai'n ddefnyddiol cyflwyno adroddiad ar yr arolwg newydd a dywedodd y cynhelir Sesiwn Wybodaeth i Aelodau.</p> <p>Nodwyd pwysigrwydd mynychu Sesiynau Gwybodaeth i Aelodau.</p> <p>CYTUNODD y Pwyllgor ar y flaenraglen waith ar gyfer y Pwyllgor Craffu Addysg a Dysgu a gynhelir ar 26 Tachwedd 2018.</p>	